# CABINET

## COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD YN NHŶ PENALLTA, TREDOMEN, DDYDD MERCHER 24 EBRILL 2019 AM 10.30AM

YN BRESENNOL:

Y Cynghorydd D. Poole – Cadeirydd

Cynghorwyr:

C. Cuss (Gofal Cymdeithasol a Lles), N. George (Gwasanaethau Cymdogaeth), C.J. Gordon (Gwasanaethau Corfforaethol), Mrs B.A. Jones (Cyllid, Perfformiad a Llywodraethu), P. Marsden (Addysg a Chyflawniad), S. Morgan (Economi, Isadeiledd a Chynaliadwyedd), ac L. Phipps (Cartrefi a Lleoedd).

Ynghyd â:

R. Edmunds (Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol) ac M. S. Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro – Cymunedau).

Hefyd yn Bresennol:

C. Jones (Cydlynydd y Fforwm Ieuenctid), J. Carpenter (Rheolwr Cyllid (Refeniw)), L. Lane (Dirprwy Swyddog Monitro) ac C. Evans (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor).

Imogen Jones – Fforwm Ieuenctid, Luke Parker – Fforwm Ieuenctid, a Lorna Mallon – Fforwm Ieuenctid.

### 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd E. Stenner (Amgylchedd a Diogelwch y Cyhoedd), C. Harrhy (Prif Weithredwr Dros Dro) a D. Street (Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai).

### 2. DATGANIADAU O FUDDIANT

Datganodd y Cyng. S. Morgan fuddiant personol a rhagfarnol yn eitem 5 (Mabwysiadu Cynllun Llywodraeth Cymru ‘Rhyddhad Ardrethi'r Stryd Fawr a Manwerthu’ 2019/20 – Cyllid Grant) a gadawodd y cyfarfod wrth i'r Cabinet ystyried yr eitem.

### 3. CABINET – 10 EBRILL 2019

PENDERFYNWYD, yn amodol ar nodi y dylai Eitem 9 – Canolfan Hamdden Pontllan-fraith (Tudalen 8) – ddatgan bod yr Arweinydd wedi cyfeirio at ohebiaeth e-bost a ddaeth i law oddi wrth Mr R. Lloyd, Ms K. Alderson a Ms L. Newman ac aethpwyd i'r afael â'r materion a gynhwyswyd ynddi, i gymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir.

## MATERION A OEDD ANGEN PENDERFYNIADAU'R WEITHREDIAETH

## 4. BLAENORIAETHAU'R FFORWM IAU A'R FFORWM IEUENCTID

Croesawodd y Cabinet gynrychiolwyr o'r Fforwm Ieuenctid a hysbysodd Aelodau o'r materion a godwyd gan Blant a Phobl Ifanc drwy Fforwm Iau a Fforwm Ieuenctid y Gwasanaethau Ieuenctid.

Rhoddwyd fideo a chyflwyniad i'r Cabinet a oedd yn amlinellu'r cynnydd a wnaed yn ystod y 12 mis diwethaf gan y Fforwm Iau a'r Fforwm Ieuenctid mewn perthynas â'r blaenoriaethau a nodwyd y llynedd. Yn ogystal, nododd yr adroddiad y blaenoriaethau y pleidleisiwyd arnynt a nodwyd ym mharagraffau 5.2 a 5.3 yn yr adroddiad. Cadarnhawyd mai'r mater blaenoriaeth gyffredinol ar gyfer y Fforwm Ieuenctid yw 'Iechyd Meddwl' – dylid gwella gwasanaethau gyda chymorth pobl ifanc a dylai pobl ifanc gael addysg cymorth cyntaf iechyd meddwl. Mater blaenoriaeth gyffredinol y Fforwm Iau yw 'mwy o ymwybyddiaeth o gymorth ar faterion cyffuriau ac alcohol'. Nodwyd y broses sy'n dilyn y gwaith adnabod materion ym mharagraff 2.2 yn yr adroddiad.

Diolchodd y Cabinet i'r Fforwm Ieuenctid am fynychu'r cyfarfod ac am ddarparu eu cyflwyniad addysgiadol a phroffesiynol. Sicrhaodd y Cabinet wrth y Fforwm Ieuenctid y bydd y blaenoriaethau'n cael eu hystyried a bydd y Cabinet yn gwneud popeth o fewn ei allu i gefnogi'r Fforwm Ieuenctid. Yn ogystal, diolchwyd i'r Fforwm Ieuenctid yn ei gyfanrwydd am ei waith yn ymwneud â digartrefedd y llynedd.

Trafododd yr Aelodau y blaenoriaethau o'r flwyddyn flaenorol a chanmolwyd y Fforwm am y dull cyfannol a'r gwaith a wnaed o ran mynd i'r afael â bwlio a chodi ymwybyddiaeth a chefnogaeth i'r bwli yn ogystal â'r dioddefwr. Gofynnodd Aelod am eglurhad ynghylch a oedd cysylltiad rhwng rhai o'r materion a nodwyd gan y Fforymau, megis Iechyd Meddwl, Troseddau Cyllyll a Digartrefedd. Cadarnhawyd bod cysylltiadau yn aml rhwng y materion hyn a bod angen dull cyfannol yn aml, ynghyd ag addysg, sy'n chwarae rhan allweddol wrth nodi'r achosion sylfaenol a mynd i'r afael â materion.

Cynhaliwyd trafodaethau ynghylch y blaenoriaethau presennol a gofynnwyd am eglurhad ynghylch mannau gwyrddach a'r flaenoriaeth o ran chwarae anturus. Er bod nifer o barciau lleol yn y fwrdeistref, nodwyd bod ganddynt gyfyngiadau oedran ac amser yn aml a'u bod wedi'u hanelu at blant iau. Nid oes digon o ardaloedd i bobl ifanc (pobl ifanc yn eu harddegau) gymdeithasu, sy'n aml yn arwain at ymgynnull yng nghanol trefi ac mewn parciau.

Gofynnodd cynrychiolydd y Fforwm Ieuenctid, wrth nodi effeithiolrwydd addysg i hysbysu pobl ifanc a mynd i'r afael â materion allweddol, am eglurhad gan y Cabinet ar sut y gallai'r blaenoriaethau fwydo i mewn i'r Cwricwlwm am Oes newydd. Diolchodd y Cabinet i'r cynrychiolydd am y cwestiwn, a ystyriwyd, ond gan nad oedd Swyddogion o'r Gyfadran Addysg gyda'r arbenigedd perthnasol ar y cwricwlwm yn y cyfarfod, nid oedd yn bosibl darparu ymateb manwl, ond rhoddodd y Cabinet sicrwydd y bydd y blaenoriaethau'n cael eu hystyried a'u datblygu lle bo modd.

Trafododd y Cabinet dlodi misglwyf, a godwyd fel blaenoriaeth i'r Fforwm Ieuenctid. Nodwyd bod Grŵp Gorchwyl a Gorffen wedi'i sefydlu gyda'r nod o fynd i'r afael â'r materion sy'n gysylltiedig â thlodi misglwyf, fel darparu cynhyrchion am ddim i bobl ifanc mewn ysgolion, grwpiau ieuenctid a llyfrgelloedd. Hefyd, datblygwyd 2 ffilm i'w defnyddio mewn gwersi Addysg Bersonol a Chymdeithasol gyda'r nod o gael gwared ar y stigma a'r embaras. Yn ogystal, mae ystyriaeth bellach ar y gweill ynglŷn â'r posibilrwydd o gynllun rhoddion a dulliau eraill i sicrhau bod darpariaeth gynaliadwy yn ei lle ar gyfer y tymor hir.

Ar ôl ystyried a thrafod, cynigiwyd ac eiliwyd, yn amodol ar gynnwys argymhelliad ychwanegol lle byddai Blaenoriaethau'r Fforwm Iau a'r Fforwm Ieuenctid yn cael eu cyflwyno i Bwyllgor Archwilio'r Gwasanaethau Cymdeithasol, i gymeradwyo'r argymhellion yn yr adroddiad. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau a gynhwysir yn Adroddiad y Swyddog ac yn amodol ar yr argymhelliad ychwanegol uchod:

i) y bydd y Cabinet yn cefnogi blaenoriaethau'r Fforwm Iau a'r Fforwm Ieuenctid;

ii) cefnogi'r Fforwm Ieuenctid o ran mynd i'r afael â'i fater blaenoriaeth, sef iechyd meddwl;

iii) cefnogi'r Fforwm Iau o ran mynd i'r afael â'i fater blaenoriaeth, sef codi ymwybyddiaeth am gymorth o ran materion cyffuriau ac alcohol;

iv) cefnogi'r materion a godwyd gan Blant a Phobl Ifanc wrth wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau;

v) *cyflwyno Blaenoriaethau'r Fforwm Iau a'r Fforwm Ieuenctid hefyd i Bwyllgor Craffu'r Gwasanaethau Cymdeithasol.*

**5. MABWYSIADU CYNLLUN LLYWODRAETH CYMRU 'RHYDDHAD ARDRETHI'R STRYD FAWR A MANWERTHU' 2019/20 – CYLLID GRANT**

Datganodd y Cyng. S. Morgan fuddiant personol a rhagfarnol yn yr eitem hon fel perchennog eiddo masnachol, a gadawodd y cyfarfod wrth i'r Cabinet ystyried yr eitem.

Nodwyd bod Llywodraeth Cymru (LlC) wedi cyhoeddi cynllun rhyddhad ardrethi busnes dros dro, y 'Cynllun Rhyddhad Ardrethi'r Stryd Fawr a Manwerthu' ar gyfer y flwyddyn ariannol 2019/20 yn unig. Caiff y rhyddhad a roddir gan yr Awdurdod o dan y cynllun newydd ei ad-dalu gan LlC drwy grant â therfyn arian parod ond, cyn dyfarnu unrhyw ryddhad, bydd yn rhaid i'r Awdurdod ystyried a mabwysiadu'r cynllun newydd.

Roedd yr adroddiad yn rhoi manylion am gynllun rhyddhad ardrethi newydd a gynigir gan LlC, ac roedd manylion y rhain wedi'u hamlinellu yn Atodiad 1 i'r adroddiad. Nododd y Cabinet fod mabwysiadu'r Cynllun newydd yn orfodol oherwydd mae LlC wedi pennu'r manylion ar gyfer y cynllun. Mae'n rhaid i'r Awdurdod fabwysiadu'r Cynllun newydd yn ffurfiol er mwyn cael arian grant LlC.

Diolchodd y Cabinet i'r Swyddog am yr adroddiad a chafwyd trafodaeth.

Gofynnodd Aelod, wrth nodi'r sylwadau o dan y pennawd "Hereditamentau â gwerth ardrethol o dros £50,000", fel y nodir yn y canllawiau, am ragor o wybodaeth am nifer y busnesau a allai fod yn gymwys i gael rhyddhad ardrethi yn ôl disgresiwn (byddai hwn yn cael ei ariannu'n llawn gan y Cyngor), pe bai'r Cyngor yn arfer y disgresiwn hwn. Eglurodd y Swyddogion fod y mwyafrif helaeth o fusnesau yn y Fwrdeistref yn gweithredu ar werth ardrethol is na hyn ac mae yna reolau penodol ynghylch busnesau eraill, fel Tesco, na fyddent yn gymwys o dan y cynllun Cymru gyfan oherwydd byddai cyfanswm y rhyddhad ardrethi, os caiff ei ddyfarnu, yn fwy na'r trothwy a gynhwysir yn rheolau Cymorth Gwladwriaethol de minimis.

Mynegwyd pryderon gan yr Aelodau mai cynllun rhyddhad dros dro yn unig yw'r cynllun ac felly ni all roi sicrwydd i fusnesau ar gyfer cynllunio ar gyfer y dyfodol. Eglurodd Swyddogion fod sawl math o ryddhad ardrethi ar gael i fusnesau, fel rhyddhad ardrethi busnesau bach, ac o ganlyniad, nid oes gan hyd at 50% o eiddo busnes unrhyw ardrethi i'w talu er eu bod yn agored i dalu ardrethi yn y fwrdeistref sirol.

Cynhaliwyd trafodaethau ynghylch y broses ymgeisio a nodwyd, er bod y Cyngor yn ymwybodol o'r mathau o eiddo a ddelir ar y rhestr ardrethu, fod y ffurflen yn gofyn am wybodaeth ar ddefnydd gwirioneddol yr eiddo. Rhagwelir y gallai'r rhyddhad ardrethi sydd ar gael o dan y cynllun hwn i fusnesau sy'n gweithredu yn y Fwrdeistref fod yn fwy na £1 filiwn,

fodd bynnag, mae'n aml yn anodd cael rhai busnesau i wneud cais am y rhyddhad ardrethi, er gwaethaf y nodiadau atgoffa, curo drysau, y cyfryngau cymdeithasol a bwletinau Newsline i annog pobl i gymryd rhan.

Yn dilyn ystyried a thrafod, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau a gynhwysir yn Adroddiad y Swyddog:-

i) mabwysiadu 'Cynllun Rhyddhad Ardrethi'r Stryd Fawr a Manwerthu' 2019/20 (Cynllun 2019/20) ar unwaith, yn unol â'r canllawiau a nodir yn Atodiad 1 i'r adroddiad, a darpariaethau adran 47 (1) (a) ac adran 47 (3) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988. Bydd y Pennaeth Cyllid Corfforaethol a Swyddog Adran 151 yn defnyddio pwerau dirprwyedig i ddyfarnu'r rhyddhad;

ii) am y rhesymau a amlinellir yn 5.5 o'r adroddiad, i fabwysiadu'r cynigion i ganiatáu i ymgeiswyr llwyddiannus ar gyfer Cynllun Rhyddhad Ardrethi'r Stryd Fawr 2018/19 (Cynllun 2018/19), sy'n gymwys i dderbyn rhyddhad ardrethi o dan Gynllun 2019/20, i gael y rhyddhad ardrethi?? heb yr angen i wneud cais pellach;

iii) ei gwneud yn ofynnol i drethdalwyr nad ydynt wedi llenwi'r ffurflen gais ar gyfer Cynllun 2018/19 i lenwi a dychwelyd ffurflen gais ar gyfer cynllun 2019/20. Pan fydd angen ffurflen gais, bydd yn rhaid i bob trethdalwr cymwys lenwi ffurflen o'r fath ar gyfer pob eiddo cymwys, a'i dychwelyd i'r Tîm Ardrethi Busnes.

Terfynwyd y cyfarfod am 11.28am.

Cymeradwywyd a llofnodwyd fel cofnod cywir yn amodol ar unrhyw gywiriadau a wneir yn y cyfarfod a gynhelir ar 15 Mai 2019.

______________________

CADEIRYDD